

# Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio

## Adroddiad Blynyddol

2022 - 2023

**Scrutiny**  
in Carmarthenshire



[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)

Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



## Cynnwys

Eitem	Teitl	Rhif y Dudalen
1.	Cyflwyniad	3
2.	Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2022/23	3
2.1	Nifer y Cyfarfodydd	3
2.2	Y Flaenraglen Gwaith	3
2.3	Craffu cyn Gwneud Penderfyniadau	4
2.4	Monitro Perfformiad / Materion Strategol	4
2.5	Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf	6
2.6	Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyn Gwneud Penderfyniadau - Datblygu Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys	6
2.7	Y Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored - Ymgynghoriad	7
2.8	Strategaeth Arloesi Lleol	7
2.9	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Drosglwyddo Asedau Cymunedol	8
2.10	Adroddiad Monitro Blyneddol 2019/21 Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin	8
2.11	Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 - Ail Fersiwn Adneuo Drafft	9
2.12	Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai am 2023/24	9
2.13	Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2022-25 - Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin	10
2.14	Cynnig Addysg Awyr Agored amgen ar gyfer Sir Gaerfyrddin	10
2.15	Y diweddaraf ar Fenter y Deg Tref	11
2.16	Rhwymedigaeth Gynllunio (Adran 106) - Diweddariad	11
2.17	Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026	11
2.18	Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2022 - 2027	12
2.19	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU	12
2.20	Polisi Cartrefi Gwag - Ein Dull o Ddefnyddio Cartrefi Gwag Unwaith Eto	12
2.21	Polisi Digolledu Tenantiaid	13
2.22	Polisi Adennill Costau am Waith Atgyweirio	13
2.23	Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth	14
2.24	Deiseb Harbwr Porth Tywyn i'r Cyngor Llawn – Y Wybodaeth Ddiweddaraf	14
2.25	Cynllun Creu Lleoedd Porth Tywyn	15
2.26	Cronfa Ffyniant Gyffredin - Mynd i'r Afael â Threfi	15
2.27	Gorchwyl a Gorffen	16
2.28	Ymweliadau Safle	16
2.29	Sesiynau Datblygu	16
2.30	Atgyfeiriadau	17
3.	Heriau	17
4.	Gwaith yn y Dyfodol	17

5.	Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu	18
6.	Presenoldeb	18

## Rhagair y Cadeirydd



Fel Cadeirydd y Pwllgor hwn ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/23, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio ar gyfer 2022/23. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb cynhwysfawr o'r gwaith a wnaed gan y Pwllgor yn ystod y cyfnod hwn ac yn rhoi cyfle i fyfyrion ar y gwaith hwnnw.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod heriol arall i'r Cyngor oherwydd effaith y pandemig covid ac o ran ei ymdrechion i ailgyflwyno gwasanaethau i'r lefelau cyn y pandemig a chredaf fod y Pwllgor hwn wedi parhau i chwarae rôl adeiladol wrth graffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisiâu a phenderfyniadau allweddol y Cyngor.

Nid oes amheuaeth na fydd y flwyddyn nesaf yn un heriol iawn unwaith yn rhagor, ond rwy'n hyderus y bydd y Pwllgor yn parhau i ganolbwyntio ar sut y mae gwella gwasanaethau'n effeithiol ac yn effeithlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i drigolion Sir Gaerfyrddin. Rwy'n siŵr y bydd y Pwllgor yn parhau i weithio'n agos gydag Uwch-reolwyr a Staff y Cyngor i sicrhau y bydd 2023/24 yn flwyddyn gynhyrchiol.

Hoffwn ddiolch hefyd i holl aelodau'r Pwllgor am eu cyfraniadau a'u hymroddiad yn ystod 2022/23.

**Y Cynghorydd Deryk Cundy**  
**Cadeirydd y Pwllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio**

## 1. Cyflwyniad

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau craffu "*baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.*"

Prif nod yr adroddiad hwn yw tynnu sylw at waith y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn ystod blwyddyn y Cyngor 2022/23. Mae'n caniatáu i Aelodau ystyried llwyddiannau'r flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu.

Cadeiriwyd y Pwyllgor gan Y Cynghorydd Deryk Cundy ac mae'n cynnwys 13 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth i'r Panel gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

## 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2022/23

### 2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu saith cyfarfod ym mlwyddyn y Cyngor 2022/23.

### 2.2 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu yn datblygu ei Flaenraglen Waith ei hun, ac, ar y cyfan, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn cyfateb i'r rheiny a amlinellwyd yn y Flaenraglen Waith, a gadarnhawyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 29 Medi 2022.

Roedd y Flaenraglen Waith yn seiliedig yn bennaf ar y meysydd allweddol a nodwyd fel amcanion yn y Strategaeth Gymunedol Integredig a'r Cynllun Gwella ynghyd ag eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad a chyllideb, adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu a cheisiadau penodol gan y pwyllgor craffu ei hun. Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol gan y Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Flaenraglen Waith yn unol â hynny.

Drwy ddatblygu'r cysyniad o Flaenraglen Waith a'r broses ar gyfer cytuno arni, mae modd i bob pwyllgor craffu benderfynu ar ei agenda waith ei hun. Arweiniodd manteision y dull hwn o weithio at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor o ran y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u cyflwyno ac mae'n rhoi pwyslais ar gyrrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal a mynd i'r afael â phroblemau.

Diweddarwyd meysydd gorchwyl y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2023 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu

ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Fel rhan o'r diweddariad hwnnw, newidiodd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio i fod yn Bwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio a'i faes gorchwyl yw craffu ar Bortffolios canlynol y Cabinet a'u meysydd gwasanaeth:

- Cartrefi
- Materion Gwledig a Pholisi Cynllunio
- Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth

Mae'r meysydd gwasanaeth hyn yn ymwneud â nifer o gyfrifoldebau allweddol sy'n cynnwys:

- Tai – Cymdeithasol a Sector Preifat
- Polisi Cynllunio
- Adfywio gan gynnwys datblygu ffisegol a gwledig
- Datblygu Economaidd
- Rhaglenni Ewropeaidd a Rhaglenni sy'n cael eu Hariannu'n Allanol
- Llyfrgelloedd
- Y Celfyddydau a Theatrau
- Amgueddfeydd ac Archifau
- Cyfleusterau Cefn Gwlad
- Chwaraeon, Hamdden ac Adloniant

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith ynghyd â sesiynau datblygu i aelodau.

### 2.3 Craffu cyn Gwneud Penderfyniadau

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisiau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

### 2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Adroddiadau Monitro Perfformiad - Un o rolau pennaf y Pwyllgorau Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddaw o fewn ei gylch gwaith. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae'r adroddiadau monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol. Cafodd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yr Adroddiadau Monitro Perfformiad ar gyfer Amcanion Llesiant y Cyngor 2022/23 yn ei gyfarfodydd ar 19 Rhagfyr 2022 (Chwarter 2 - 1 Ebrill 2022 - 30 Medi 2022) a 5 Ebrill, 2023 (Chwarter 3 - 1 Ebrill 2022 – 31 Rhagfyr 2022). Nodwyd y byddai'r Cyngor yn parhau i adrodd ar yr Amcanion drwy gydol 2022/23 hyd nes byddent yn cael eu disodli gan y Strategaeth Gorfforaethol newydd.

Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2021/22 - Fel rhan o'i rôl o fonitro perfformiad, cafodd y Pwyllgor wybodaeth berthnasol am strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Un o'r meysydd allweddol sy'n ymwneud â gwaith rheoli'r Cyngor yw monitro'n flynyddol y cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion llesiant y Cyngor y manylir arnynt yn Adroddiad 2021/22. Gyda hynny mewn golwg, bu'r Pwyllgor, ym mis Rhagfyr 2022, yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn manylu ar y cynnydd a'r addasiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r elfennau hynny o 13 amcan Llesiant y Cyngor a oedd yn rhan o'i faes gorchwyl, a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2018, fel y'i diwygiwyd, i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n datblygu ac effaith pandemig y Coronafeirws (Covid-19), Brexit a newid yn yr hinsawdd. Er yr ystyriwyd ei bod yn arfer da sicrhau bod y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddarau a bod adnoddau wedi'u dyrannu i flaenoriaethau, nododd y Pwyllgor fod yn rhaid cyhoeddi'r Amcanion Gwella yn flynyddol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mesur Cymru 2009) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yn yr un modd, roedd gan y Cyngor ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru 2021) i adrodd ar ddull hunanasesu ar sail perfformiad/

### **Canlyniad:**

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023 argymhellodd y Cabinet i'r Cyngor y dylid derbyn Adroddiad Blynyddol 2021/22, a fabwysiadwyd wedyn gan y Cyngor ym mis Ionawr 2023.

Cynlluniau Busnes Drafft Adrannol 2022 - 2023 - Ym mis Ebrill 2023, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Gynlluniau Busnes Drafft Adrannol 2023 - 2024 ar gyfer y meysydd hynny o'r Adran Gymunedau, Adran y Prif Weithredwr a'r Adran Lle a Seilwaith sy'n rhan o'i faes gorchwyl (cyfeirir ato isod) sy'n manylu ar y camau strategol a'r mesurau y mae angen eu cymryd i alluogi'r Cyngor i wneud cynnydd yn erbyn ei Amcanion Llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau gwasanaeth. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellir ar gyfer yr adrannau a gwneud sylwadau yn eu cylch.

- Y Gwasanaethau Tai a Diogelu'r Cyhoedd
- Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol
- Hamdden
- Adfywio

- Lle a Chynaliadwyedd

### **Canlyniad:**

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynlluniau Busnes Drafft uchod ar gyfer yr Is-adrannau o'r Adran Cymunedau, Adran y Prif Weithredwr a'r Adran Lle a Seilwaith sy'n rhan o'i faes gorchwyl.

Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau - Yn ystod blwyddyn y cyngor, gall aelodau wneud ceisiadau am eitemau ychwanegol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl o graffu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn sy'n darparu diweddariad ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

## 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Adroddiadau Monitro'r Gyllideb – Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol ynghylch y cyllidebau cyfalaf a refeniw adrannol a chorfforaethol. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro a herio'r gwariant ym mhob maes gwasanaeth a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24-2025/26 - Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, ymgynghorwyd hefyd â'r Pwyllgor ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/2026.

### **Canlyniad:**

Fel rhan o'r ymgynghoriad eang a gynhaliwyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26, ystyriodd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio y Strategaeth yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023 a chymeradwyodd gynigion y gyllideb, fel y'u cyflwynwyd. Yn dilyn hynny cafodd Strategaeth y Gyllideb ei mabwysiadu gan y Cabinet a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023, yn amodol ar wneud rhai newidiadau a lleihau ardoll arfaethedig y dreth gyngor.

## 2.6 Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyn gwneud Penderfyniadau (Datblygu Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys)

Ym mis Medi 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ar gynnig i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen cyn-craffu gyda'r nod o ddatblygu Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Ystyriwyd bod y polisi'n hanfodol gan fod y Cyngor, ynghyd â holl awdurdodau lleol Cymru, yn wynebu sefyllfa ddigynsail lle'r oedd y galw am dai cymdeithasol yn fwy na'r cyflenwad, ac roedd y sefyllfa wedi gwaethygu'n sylweddol oherwydd nifer o ffactorau allanol gan gynnwys:

- Dull 'Neb ar ôl' Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan bawb le diogel i fyw ac i sicrhau bod achosion o ddigartrefedd yn brin, yn fyr ac nad yw'n digwydd dro ar ôl tro



- Canlyniadau anfwriadol cyflwyno'r Ddeddf Rhentu Cartrefi newydd
- Pwysau enfawr yn y farchnad gyffredinol o ran prisiau tai a rhenti
- Rhaglen ailsefydlu Wcráin a,
- Cynllun gwasgaru ceiswyr lloches arfaethedig ar gyfer y DU gyfan

### **Canlyniad:**

Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn briodol, a chymeradwywyd y Polisi Dyraniadau Tai Cymdeithasol Brys gan y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2023 ac wedi hynny, fe'i mabwysiadwyd gan Gabinet y Cyngor ar 27 Chwefror 2023 ar yr amod bod y polisi yn ei le am gyfnod o hyd at 18 mis yn lle'r cyfnod o tua blwyddyn, fel yr argymhellir.

## 2.7 Y Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored - Ymgynghoriad

Ym mis Tachwedd 2022, ymgynghorwyd â'r pwyllgor ar ddatblygu Strategaeth Hamdden a Hamdden Awyr Agored 10 mlynedd newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin gan ganolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Ble bu'r Awdurdod a'i daith o 2007-2022
- Ble yr oedd nawr
- Ble'r oedd yn mynd

Cododd y Pwyllgor nifer o faterion gan gynnwys, hybu mwy o bysgota, cyfraniad hamdden i iechyd y boblogaeth, lefel gordewdra ymhlith plant 4-5 oed, hybu mân chwaraeon a'r effaith bosibl gallai'r hinsawdd economaidd ei chael ar gyflawni'r strategaeth.

### **Canlyniad:**

Cymeradwywyd y Strategaeth gan y Pwyllgor. Bu wedyn yn destun proses ymgynghori ffurfiol ac roedd y strategaeth derfynol i'w hystyried i ddechrau gan Gabinet y Cyngor, ar ôl yr ymgynghoriad, ym mis Hydref 2023.

## 2.8 Strategaeth Arloesi Lleol

Ym mis Tachwedd 2022, ystyriodd y Pwyllgor gynigion y Cyngor i fabwysiadu Strategaeth Arloesi Lleol gan ganolbwyntio ar y pedwar cyfle Arloesi canlynol i gefnogi adferiad ac ailstrwythuro economi Sir Gaerfyrddin.

### **Cyfle 1 – Digidol**

- Gwella ffeibr a chysylltedd ffôn symudol
- Cyfleoedd i dechnolegau digidol y genhedlaeth nesaf
- Mynd i'r afael â sgiliau digidol
- Datblygu canolfan arloesi digidol wledig

### **Cyfle 2 – Iechyd**

Datblygu labordy byw gwasgaredig i brofi cynhyrchion a gwasanaethau meddygol newydd

Cam 3 - Yr Economi Sylfaenol

Caffael bwyd cynaliadwy a datblygu'r gadwyn cyflenwi bwyd leol.

Cyfle 4 - Yr Economi Gylchol

Defnyddio dull gweithredu ar gyfer yr Agenda Sero Net trwy leihau gwastraff ac ailgylchu.

Fel rhan o drafodaethau'r Pwyllgor, codwyd nifer o faterion a oedd yn cynnwys y manteision a ddeilliai o Fargen Ddinesig Bae Abertawe i'r sir, a targedau Llywodraeth Cymru i leihau cynhyrchiant bwyd er mwyn galluogi'r wlad i gynhyrchu ei bwyd ei hun ynghyd â lleihau carbon a hefyd cynnydd o ran datblygiad Pentre Awel.

**Canlyniad:**

Argymhellwyd mabwysiadu'r cynigion i Gabinet y Cyngor ac fe'u mabwysiadwyd wedyn gan y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2022.

2.9 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Drosglwyddo Asedau Cymunedol

Ym mis Tachwedd 2022, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddarau ar gynnydd Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Cyngor ynghyd â Dogfen Gweithdrefnau Trosglwyddo Asedau Cymunedol arfaethedig sydd newydd ei diweddarau. Fel rhan o'i ystyriaeth, cododd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â'r rhesymau dros yr oedi wrth drosglwyddo rhai asedau a chyflwr rhai eraill wrth drosglwyddo.

**Canlyniad:**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad diweddarau ac argymhellodd i'r Cabinet fabwysiadu'r Ddogfen Gweithdrefnau Trosglwyddo Asedau Cymunedol a oedd newydd ei diweddarau, a fabwysiadwyd ar 27 Mawrth 2023.

2.10 Adroddiad Monitro Blynyddol 2021/22 - Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin a Fabwysiadwyd ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol

Ym mis Tachwedd, cafodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Blynyddol 2021/22 ar Gynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin, ynghyd ag Adroddiad Monitro Blynyddol, a luniwyd yn unol â'r gofynion statudol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 31 Hydref. Nododd y Pwyllgor y byddai'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig yn cael ei ddatblygu wrth i ragor o dystiolaeth a data ddod ar gael, cyn ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor i'w gymeradwyo. Bydd cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

Wrth ystyried yr adroddiad cododd y Pwyllgor nifer o faterion, gan gynnwys:

- hyrwyddo Pŵer Trydan Dŵr a phrosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach
- yr heriau sy'n wynebu unedau manwerthu canol tref.

**Canlyniad:**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad a nododd ei fod yn cydymffurfio â'r gofyniad i'w osod ar wefan y Cyngor erbyn 31 Hydref 2022. Cafodd Adroddiad Monitro Blynyddol 2021/22 ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig hefyd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2022.

**2.11 Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 – Ail Fersiwn Adneuo Drafft**

Ym mis Tachwedd, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd ar baratoi a mabwysiadu Ail Fersiwn Adneuo Drafft Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2018-2033 yn nodi gweledigaeth defnydd tir, Amcanion Strategol a gofyniad Twf Strategol y Cyngor ar gyfer y Sir hyd at 2033. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys set fanwl a chynhwysfawr o bolisiau a darpariaethau, gan gynnwys dyraniadau safle-benodol at ddefnydd tai a chyflogaeth, yn ogystal ag ystyriaethau amgylcheddol a gofodol eraill.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar nifer o feysydd yn yr adroddiad gan gynnwys, nodi tir ar gyfer darparu tai fforddiadwy, polisiau a gofynion creu lleoedd, rhagamcanion twf tai, effaith rheoliadau ffosffad ar ddatblygu a hefyd darparu cartrefi yng nghefn gwlad i bobl leol.

**Canlyniad:**

Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor. Fe'i hystyriwyd hefyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2023 a argymhellodd ei gymeradwyo i'r Cyngor. Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r adroddiad yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2022 a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

**2.12 Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai am 2023/24**

Ym mis Rhagfyr, ystyriodd y Pwyllgor y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2023/24, a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r cynigion diweddaraf a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, sef y prif offeryn cynllunio ariannol ar gyfer darparu Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+).

Cymeradwyodd y Pwyllgor gyflwyno'r adroddiad a'r cynnydd arfaethedig mewn rhent er ystyriaeth y Cabinet a'r Cyngor fel rhan o'r cynnig ynghylch y gyllideb i'r Cyngor.

### **Canlyniad:**

Cafodd y cynigion o ran y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai a oedd yn rhan o'r gyllideb eu mabwysiadu gan y Cabinet a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Chwefror a mis Mawrth, 2023.

## 2.13 Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2023-26 - Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin

Ym mis Rhagfyr, bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2023-26 Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin, a'r pum prif thema oedd:

- Cefnogi Tenantiaid a Phreswylwyr
- Buddsoddi mewn Cartrefi a'n Hystadau
- Darparu rhagor o dai
- Darparu Cynhesrwydd Fforddiadwy a Datgarboneiddio'r Stoc Dai
- Yr Economi Leol, Budd i'r Gymuned a Chaffael

Cododd y Pwyllgor nifer o faterion ynghylch yr adroddiad a oedd yn cynnwys: lefelau tai gwag, y gefnogaeth a gynigir i denantiaid a chynigion y Cyngor i ddarparu 2,000 o gartrefi newydd ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf.

### **Canlyniad:**

Penderfynodd y Pwyllgor argymhell yr adroddiad i'r Cabinet a'r Cyngor a dderbyniwyd yn eu cyfarfodydd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023..

## 2.14 Cynnig Addysg Awyr Agored Amgen ar gyfer Sir Gaerfyrddin

Ym mis Rhagfyr, gofynnwyd i'r Pwyllgor gyfrannu at adroddiad fyddai'n adolygu Cynnig Addysg Awyr Agored presennol y Cyngor, ac ymchwilio i opsiynau ar gyfer darparu model cyflawni amgen, a hynny o fewn terfynau'r adnoddau presennol. Gan fod y cyfleuster addysg awyr agored presennol ym Mhentywyn wedi cyrraedd diwedd ei oes, ac nad oedd gan y Cyngor unrhyw gyllid cyfalaf ar gyfer cael un arall yn ei le, dywedwyd bod sylw'n cael ei roi i fodel cyflawni amgen, gyda phwrpas newydd yn cael ei gynnis a'i ail-ddiffinio yn dilyn ymgynghori ag ysgolion a rhanddeiliaid allweddol eraill, fel a ganlyn:

- Darparu cyfleoedd addysg awyr agored, heriol o safon, yn bennaf i ddisgyblion Sir Gâr, gan gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd.
- Darparu amrywiaeth o gyfleoedd preswyl i blant ddatblygu eu deallusrwydd cymdeithasol ac emosiynol a chael profiad o fod oddi cartref.
- Darparu cyfleoedd addysg awyr agored o ansawdd da mewn amrywiaeth o safleoedd a lleoliadau hamdden awyr agored, gan gynnwys mewn ysgolion.

- Ystyried cyfleoedd ehangach, masnachol o bosib, a fydd yn helpu i dyfu a chynnal y cynnig Addysg Awyr Agored ar draws Sir Gaerfyrddin.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i werth y cyfleuster preswyl awyr agored presennol ym Mhentywyn ac roedd yn llwyr gefnogi'r angen am i'r ddarpariaeth addysg awyr agored barhau ac yn awgrymu opsiynau i hwyluso hynny.

**Canlyniad:**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad ac roedd yr adroddiad ôl ymgynghori terfynol i'w ystyried i ddechrau gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 18 Medi, 2023.

## 2.15 Y diweddaraf ar Fenter y Deg Tref

Ym mis Rhagfyr, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad diweddarau ar waith Menter Deg Tref y Cyngor, a amlinellai'r gefnogaeth oedd wedi'i sicrhau er mwyn datblygu mentrau ar lefel leol.

**Canlyniad:**

Derbyniwyd yr adroddiad diweddarau.

## 2.16 Rhwymedigaeth Gynllunio (Adran 106) - Diweddariad

Ym mis Rhagfyr, cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddarau yn rhoi trosolwg o'r cyfraniadau datblygwr a dderbyniwyd drwy rwymedigaethau cynllunio (Cytundebau Adran 106). Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwybodaeth gefndirol yn ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio, y broses o wneud cais am gyfraniadau datblygwr ynghyd â throsolwg o'r incwm a'r gwariant yn ystod 2021/22, yn ogystal â rhoi diweddariad ar y sefyllfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

**Canlyniad:**

Derbyniwyd yr adroddiad diweddarau.

## 2.17 Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026

Ym mis Ionawr 2023, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad am Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2023-2026, a luniwyd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, a oedd yn manylu ar flaenoriaethau strategol y Cyngor, a'i asiantaethau partner, ar wasanaethau atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai dros y 4 blynedd nesaf (2022-26). Roedd y Strategaeth yn diweddarau'r blaenoriaethau cynharach oedd yn hen strategaeth ddigartrefedd yr Awdurdod Lleol a Chynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai ar gyfer 2021-22, ac roedd ymarfer asesu anghenion cynhwysfawr yn llywio datblygiad y blaenoriaethau, a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid yn yr Awdurdod Lleol, darparwyr gwasanaethau cymorth, a defnyddwyr gwasanaeth.

Codwyd nifer o faterion ynghylch yr adroddiad gan gynnwys cyllid / grant sydd ar gael ynghyd â chyflwyno Hysbysiadau Adran 21 gan landlordiaid preifat.

**Canlyniad:**

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad ac wedyn cymeradwywyd hynny gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2023

2.18 Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2022 - 2027

Ym mis Ionawr 2023, ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2023-27, a luniwyd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys cyfres o Gamau Gweithredu Lefel Uchel er mwyn galluogi'r Cyngor i bontio i ddull Ailgartrefu Cyflym i helpu i wneud digartrefedd yn Sir Gaerfyrddin yn brin ac yn fyr, ac i sicrhau nad yw'n digwydd dro ar ôl tro.

**Canlyniad:**

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad ac wedyn cymeradwywyd hynny gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2023

2.19 Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Ym mis Ionawr, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y ffurflen gais a'r meini prawf asesu ar gyfer y Prosiectau Angor a'r Prosiectau Annibynnol, a nodwyd bod dogfen ganllaw i gynorthwyo ymgeiswyr yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd. Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar y 5 prosiect angor canlynol a gymeradwywyd gan y Cabinet:

Angor Cymunedol,  
Angor Gwledig,  
Angor Lle  
Angor Cefnogi Busnesau Lleol  
Angor Cyflogadwyedd a Sgiliau

Codwyd nifer o faterion ynghylch yr adroddiad gan gynnwys datblygiad y Gronfa drwy brosesau democrataidd pedwar awdurdod cyfansoddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe, cynnwys y Fenter Deg Tref yn yr Angor Gwledig ynghyd â chyfleoedd i'r holl gynghorau tref a chymuned wneud cais am gyllid.

**Canlyniad:**

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad ac wedyn cymeradwywyd hynny gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2023

2.20 Polisi Cartrefi Gwag - Ein dull o ddefnyddio cartrefi gwag unwaith eto

Ym mis Chwefror, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad am Bolisi Cartrefi Gwag y Cyngor a oedd yn cynnwys manylion ar ei ddull, gweledigaeth, a rhaglen waith am y pedair blynedd nesaf, er mwyn mynd i'r afael â chartrefi preswyl preifat gwag yn y sir a'u defnyddio unwaith eto. Dywedwyd bod y

Cyngor wedi lleihau nifer y cartrefi gwag preifat yn y sir ers 2017 o 2667 i 1,984, a'r nod oedd lleihau'r nifer hwnnw ymhellach i 1500 erbyn 2026.

Rhoddwyd ystyriaeth i nifer o faterion fel rhan o'r adroddiad gan gynnwys:

- targedu tai gwag a'r opsiynau sydd ar gael i'r cyngor ar gyfer eu hailgyflwyno i'r stoc tai
- mater ail gartrefi neu gartrefi gwyliau
- cyllid ar gael drwy grantiau/benthyciadau i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd.
- amserlenni gweithredu

**Canlyniad:**

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad i'w atgyfeirio at y Cabinet yn amodol ar rai diwygiadau. Cymeradwyodd y Cabinet yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2023 i'w gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru

## 2.21 Polisi Digolledu Tenantiaid

Ym mis Chwefror, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad oedd yn nodi ymagwedd y Cyngor o ran pryd roedd yn briodol digolledu ei denantiaid oedd wedi dioddef colled neu anghyfleustra oherwydd methiant y gwasanaeth, a hefyd helpu i roi arweiniad i swyddogion wrth ddelio â thenantiaid, gan sicrhau eglurder a chysondeb wrth ystyried digolledu. Nodwyd bod y polisi wedi'i baratoi mewn ymateb i ddisgwyliad yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol fod gan landlordiaid bolisi digolledu i roi arweiniad ar ddigolledu ac i sicrhau bod landlordiaid yn cael eu diogelu pan gaiff ceisiadau eu gwneud.

**Canlyniad:**

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad i'w atgyfeirio at y Cabinet i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2023.

## 2.22 Polisi Adennill Costau am Waith Atgyweirio

Ym mis Chwefror, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn nodi meini prawf arfaethedig ar gyfer pryd byddid yn codi tâl ar denant cyngor am atgyweiriadau a wnaed gan y Cyngor, a oedd yn gyfrifoldeb y tenant o dan eu cytundeb tenantiaeth.

Cododd y Pwyllgor nifer o faterion ynghylch yr adroddiad a oedd yn cynnwys:

- Bod y Cyngor yn gwneud gwaith y gellir codi tâl amdano fesul achos lle nad oedd tenantiaid yn gallu gwneud eu gwaith atgyweirio eu hunain,
- Cyflwyno trefn arolygu
- Gweithdrefnau adennill lle methai tenantiaid wneud ad-daliadau,
- Ailgodi tâl am ddifrod damweiniol

### **Canlyniad:**

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad i'w atgyfeirio at y Cabinet i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2023.

#### 2.23 Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth

Ym mis Ebrill, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar arfarniadau a gynhaliwyd ar 10 ardal gadwraeth yn Sir Gaerfyrddin a'r diwygiadau arfaethedig i'w ffiniau, lle bo'n berthnasol. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at ganlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 24 Mehefin a 26 Awst 2022, ac yn amlinellu'r camau nesaf a'r camau yn y dyfodol tuag at fabwysiadu'r arfarniadau a'u canlyniadau. Nodwyd hefyd bod yr arfarniadau wedi'u cynnal yn unol â dyletswyddau cyfreithiol y Cyngor o dan y Ddeddf Cynllunio (Ardaloedd Rhestredig Adeiladu a Chadwraeth) 1990:

Cododd y Pwyllgor nifer o faterion ynghylch yr adroddiad a oedd yn cynnwys:

- Sut i roi gwybod i drigolion bod eu heiddo wedi'u lleoli o fewn Ardal Gadwraeth
- Codi paneli solar ar eiddo o fewn yr Ardal Gadwraeth

### **Canlyniad:**

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad a bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at yr heriau a'r gwrthdwyddiadau rhwng ardaloedd cadwraeth a'r argyfwng hinsawdd a'i fod yn ystyried y ffordd orau o gadw ac achub yr amgylchedd. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2023.

#### 2.24 Deiseb Harbwr Porth Tywyn i'r Cyngor Llawn – Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Ym mis Mai 2023, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddarau ar y ddeiseb a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 25 Ionawr 2023 ynghylch cyflwr Harbwr Porth Tywyn yn nodi'r sefyllfa bresennol a'r pryderon gweithredol a godwyd gan Swyddogion y Cyngor a Chyfeillion Marina Porth Tywyn.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch cyflwr yr Harbwr ar ôl rhoi prydles 150 mlynedd i Burry Port Marine Ltd yn 2018 ac ynghylch yr addewidion niferus a dorwyd a thorri amodau'r brydles dros y cyfnod hwnnw. Yn arbennig:

- y diffyg carthu yn yr harbwr i'r pwynt lle mae bellach yn effeithio'n ddifrifol ar weithrediadau'r harbwr ar gyfer defnyddwyr cychod,
- diffyg gwaith atgyweirio a chynnal a chadw gan gynnwys gatiâu'r harbwr a oedd wedi bod yn anweithredol dros y misoedd diwethaf gydag olew yn gollwng i'r dŵr.
- pontynau'n torri'n rhydd yn yr harbwr ac yn arnofio i'r bae.
- Er bod gan yr harbwr 450 o angorfeydd, dim ond 49 oedd wedi'u meddiannu.
- Sefyllfa ariannol y cwmni



- Gallai cyflwr presennol yr harbwr atal unrhyw ddiddordeb gan ddarpar weithredwyr yn y dyfodol.
- Mynegwyd rhagor o bryderon yn ymwneud â rhestr o welliannau eraill o amgylch yr harbwr nad oeddent yn datblygu, gan gynnwys uwchraddio'r pontynau masnachol, ail-gychwyn gwaith i hen adeilad yr RNLI i fod yn Swyddfa Harbwrfeistr newydd a chyfleusterau gwell i ddefnyddwyr yr harbwr newid dillad a chael cawod.

**Canlyniad:**

Penderfynodd y Pwyllgor y dylai ei bryderon ynghylch sefyllfa bresennol yr Harbwr gael eu mynegi i'r Cabinet a dylid gofyn i'r Cabinet ymweld â'r Harbwr yn ystod llanw isel ac ystyried terfynu'r cytundeb prydles gyda Burry Port Marine Ltd pe na bai unrhyw welliannau wedi'u cyflawni erbyn diwedd y broses gyfreithiol bresennol.

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, rhoddwyd gwybod i'r Cabinet, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor, fod Burry Port Marine Ltd wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ar 22 Mehefin. Nododd y Cabinet y sefyllfa a bod swyddogion yn trafod gyda'r gweinyddwyr penodedig.

2.25 Cynllun Creu Lleoedd Porth Tywyn

Ym mis Mai 2023, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ar fabwysiadu Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Porth Tywyn i nodi cyfleoedd sy'n cyd-fynd â'r cynigion adfer ar gyfer canol y dref â dyheadau adfywio ar ochr yr harbwr i sicrhau bod Porth Tywyn yn manteisio i'r eithaf ar weithgarwch adfywio cynlluniedig yn yr ardal leol, gyda phrif nodau'r Cynllun fel a ganlyn:-

- Tyfu busnes presennol.
- Creu cynifer o swyddi â phosibl.
- Cefnogi datblygiad economi wybodaeth.
- Datblygu natur unigryw yr ardal
- Nodi rôl darparu gwasanaethau yn y gymuned yn awr ac yn y dyfodol.
- Cefnogi cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ynni cynaliadwy
- Sefydlu cynhyrchu incwm cynaliadwy ar gyfer twf yn y dyfodol.
- Cynyddu cydnerthedd, cynaliadwyedd a thwf y dref a'r cymunedau o'i chwmpas yn y dyfodol.

**Canlyniad:**

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun a fydd hefyd yn cael ei ystyried am y tro cyntaf gan y Cabinet ar 3 Gorffennaf 2023.

2.26 Cronfa Ffyniant Gyffredin - Mynd i'r Afael â Threfi

Yn ei gyfarfod ym mis Mai, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin a gweithrediad Rhaglen y Cyngor - Mynd i'r Afael â Threfi o fewn yr Angor Lle. Nod y rhaglen oedd gwella canol trefi Sir Gaerfyrddin drwy gefnogi polisiâu ac ymyriadau i ymateb i'r heriau parhaus yr oeddent yn eu

hwynebu. Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn rhoi rhestr i'r Pwyllgor o'r prosiectau arfaethedig ym mhob un o'r 14 canolfan a gwmpesir gan y rhaglen.

**Canlyniad:**

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad a fydd hefyd yn cael ei ystyried am y tro cyntaf gan y Cabinet ar 3 Gorffennaf.

2.27 Gorchwyl a Gorffen

Ym mis Medi, penderfynodd y Pwyllgor sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Cyfarfu'r Grŵp ar 5 achlysur rhwng Hydref 2022 a Ionawr 2023 gan arwain at gyflwyno Polisi Drafft i'w gyfarfod ym mis Ionawr 2023. Cymeradwyodd y Pwyllgor y polisi Drafft ac wedyn fe'i mabwysiadwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror, 2023.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am gael adroddiadau monitro rheolaidd, ynghylch gweithrediad y polisi, yn ei holl gyfarfodydd yn y dyfodol. Derbyniwyd yr adroddiad monitro cyntaf yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai 2023

2.28 Ymweliadau Safle

Er bod nifer o ymweliadau safle wedi'u cynnwys ym Mlaenraglen Waith 2022/23 y Pwyllgor, nid oedd y Pwyllgor wedi gallu cynnal unrhyw un ohonynt oherwydd effaith barhaus Covid-19.

2.29 Sesiynau Datblygu

Cynhaliodd y Pwyllgor un sesiwn datblygu penodol i'r gwasanaeth yn ystod 2021/22 ynghylch y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth Hamdden er mwyn helpu i lywio'i ddatblygiad cyn i'r Cyngor ei ystyried yn 2023.

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu/seminarau canlynol i'r holl aelodau yn ystod 2022/23:-

- Cyflwyniad a throsolwg o sut i ddefnyddio Zoom
- Cyflwyniad a throsolwg o mod.gov
- Côt Ymddygiad, Moeseg, Safonau, Cyfrifoldebau a Dyletswyddau Cyfreithiol
- Cyflwyniad i Gyngor Sir Caerfyrddin a Lansio'r Rhaglen Sefydlu
- Materion Cyfansoddiadol a Pharatoi ar gyfer Cyfarfodydd
- Cyllid Llywodraeth Leol
- Rheoleiddwyr Allanol
- Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin
- Newid yn yr Hinsawdd, Lliniaru a Datgarboneiddio
- Cynllunio
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Llythrennedd Carbon
- Diogelwch Personol a Hunanofal, Rheoli Straen, Gwytnwch Personol, Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Seiberddiogelwch
- Cyflwyniad i Farchnata a'r Cyfryngau
- Y Lluoedd Arfog
- Polisi Cwynion
- Trawsnewid i Wneud Cynnydd
- Cynlluniau Argyfwng
- Deddfwriaeth Gostwng Cyflymder
- Cwmnïau sy'n eiddo i'r Cyngor
- Cytundebau Cyfreithiol Adran 106
- Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor
- Adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg
- Newidiadau Gwastraff yn y Dyfodol
- Hyfforddiant Cronfa Bensiwn Dyfed
- Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu
- Ymholiadau gan Aelodau
- Gweithdy ynghylch y Strategaeth Gorfforaethol
- Sesiwn Briffio ynghylch Atgyweiriadau Tai
- Sesiwn Briffio ynghylch Ardaloedd Cadwraeth

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb adrannol fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2023/24 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

### 2.30 Atgyfeiriadau

Ni wnaeth y Pwyllgor unrhyw atgyfeiriadau i bwyllgorau craffu eraill/cabinet yn ystod 2022/2023

## 3. Heriau

Un o'r heriau sylweddol a wynebodd y Sir yn 2022/23 oedd effaith y pandemig coronafeirws ar ddarparu gwasanaethau i drigolion Sir Gaerfyrddin ac ymdrechion y cyngor i ddychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a ddarparwyd cyn y pandemig.

## 4. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gyflawni proses fwy syml o graffu, er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd ynghyd â'r manteision o gynnal rhag-gyfarfodydd.

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o sesiwn cynllunio'r Flaenraglen Waith. Bydd y Flaenraglen Waith yn parhau i gael ei monitro yn ystod y flwyddyn, ynghyd â Blaenraglen Waith y Cabinet.

## 5. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Llunio agendâu yn unol â'r Flaenraglen Waith a'u dosbarthu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod,
- Darparu cymorth a chynghor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu,
- Rhoi cymorth a chynghor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion,
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion gyda'r Bwrdd Gweithredol,
- Rhoi cynghor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi,
- Rheoli cydlynid a datblygiad blaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu,
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd,
- Cynorthwyo â rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaenraglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: [www.sirgar.llyw.cymru/craffu](http://www.sirgar.llyw.cymru/craffu)

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at [craffu@sirgar.gov.uk](mailto:craffu@sirgar.gov.uk)

## 6. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio yn ystod blwyddyn gyngor 2022/23 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 7 cyfarfod rhwng Medi 2022 a Mai 2023 yn unol â'r 7 a drefnwyd.

Aelod y Pwyllgor Craffu	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	%
-------------------------	---------------------------------	---

Y Cynghorydd D Cundy	7	100
Y Cynghorydd A Davies	7	100
Y Cynghorydd B Davies	6	86
Y Cynghorydd H Davies	6	86
Y Cynghorydd T Davies	6	86
Y Cynghorydd N Evans (O ddiwedd Medi 22 tan Ebrill 2023)	4	57
Y Cynghorydd R Evans	5	71
Y Cynghorydd K howell	7	100
Y Cynghorydd B Jones	6	86
Y Cynghorydd D Owen	5	71
Y Cynghorydd M Palfreman	6	86
Y Cynghorydd H Shepardson	6	86
Y Cynghorydd R Sparks	6	86
Y Cynghorydd M Thomas (Hyd at ddiwedd Medi 2022 – Ail-benodwyd i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2023)	2	29
<b>Dirprwyon</b>	<b>Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd</b>	
Y Cynghorydd E William	1	
Y Cynghorydd A Leyshon	1	
<b>Aelodau'r Cabinet</b>	<b>Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd</b>	
Y Cynghorydd L D Evans	6	
Y Cynghorydd A Davies	4	
Y Cynghorydd G John	5	
Y Cynghorydd A Lenny	6	
Y Cynghorydd E Thomas	2	
Y Cynghorydd P M Hughes	1	